
Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC

Datganiad ar ddull gweithredu Ofcom o ran asesu
cydymffurfiad y BBC â'i ofynion

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 11 Chwefror 2019

Trosolwg

Cenhadaeth y BBC ydy darparu gwybodaeth, addysg ac adloniant i gynulleidfaoedd a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus ar draws amrywiaeth o Wasanaethau Cyhoeddus. Er mwyn iddo allu dangos yr allbwn mwyaf creadigol ac unigryw ac o'r ansawdd gorau, mae'n comisiynu rhaglenni a deunyddiau eraill gan y BBC a gan gynhyrchwyr allanol.

Dros oes y Siarter, mae'n rhaid i'r BBC gomisiynu mwy o gynnwys yn dilyn proses gystadleuol, a sicrhau bod y broses hon yn deg, yn rhesymol, yn dryloyw ac nad yw'n gwahaniaethu. Rôl Ofcom ydy monitro cydymffurfiad y BBC a gorfodi'r gofynion hynny, ac, os oes angen, gosod gofynion ychwanegol i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol pan fydd y BBC yn comisiynu cynnwys ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r datganiad hwn yn nodi penderfyniad Ofcom ynghylch a oes angen rheoliad ychwanegol yn y maes hwn.

Beth rydym ni wedi'i benderfynu – yn gryno

Nid ydym yn gosod unrhyw ofynion sylweddol newydd mewn perthynas â chomisiynu ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yn Fframwaith Gweithredu'r BBC, oherwydd mae'r BBC eisoes yn rhwym wrth ofyniad i sicrhau ei fod yn comisiynu mewn ffordd deg, resymol, dryloyw a heb wahaniaethu o dan y Cytundeb.

Rydym ni'n cyflwyno canllawiau sy'n nodi'r ffactorau y byddem yn eu hystyried wrth asesu a ydy'r BBC wedi diwallu ei ddyletswyddau o ran comisiynu mewn ffordd deg, resymol, dryloyw a heb wahaniaethu petai ymchwiliad.

Mae'r BBC wedi cytuno i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol a'i rhoi i Ofcom a fydd yn caniatáu i ni gyflawni ein rôl monitro ac nid ydym felly'n gosod unrhyw ofynion newydd ar gyfer adrodd.

Cefndir

- 1.1 Ar 30 Gorffennaf 2018, roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad¹ yn nodi sut roedden ni'n bwriadu cyflawni ein rôl ni ac yn gofyn am sylwadau. Roedden ni wedi bwriadu peidio â gosod gofynion sylweddol ychwanegol ar y BBC i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gomisiynu, ar y sail bod digon o ddiogelwch eisoes mewn lle. Fodd bynnag, roeddem wedi cynnig ffactorau y byddem yn debygol o'u hystyried wrth asesu a yw'r BBC wedi cydymffurfio â'r gofynion yn y Cytundeb, un ai mewn ymateb i gŵyn neu fel rhan o ymchwiliad a gychwynnwyd gan Ofcom. Roeddem hefyd wedi gofyn am sylwadau ynghylch y dull gweithredu roeddem yn ei gynnig ar gyfer monitro cydymffurfiad y BBC â'i ofynion, a'r gwaith adrodd a fyddai'n angenrheidiol i gefnogi hyn.
- 1.2 Cawsom chwe ymateb i'r ymgynghoriad², ac fe wnaethom siarad ag amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno â safbwynt Ofcom ond wedi

¹ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/116706/consultation-bbc-commissioning-public-services.pdf

² AudioUK, BBC, Directors UK, NUJ, Pact a TAC. Mae'r ymatebion gan randdeiliaid ar gael yma:

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/commissioning-bbc-public-services>

mynegi safbwyntiau gwahanol am yr wybodaeth y dylai'r BBC ei chyhoeddi a'r wybodaeth y dylai Ofcom ei chasglu, mewn perthynas â gweithgareddau comisiynu'r BBC. Roedd y BBC yn cwestiynu'r angen am ofynion adrodd amrywiol. Serch hynny, mae'r BBC wedi cytuno i gyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth ychwanegol bob blwyddyn neu roi'r wybodaeth honno i Ofcom gan ei fod yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder yn y maes yma. Mae hyn yn cynnwys:

- i) Mewn perthynas â chomisiynu ar gyfer y teledu, bydd y BBC yn cyhoeddi "adroddiad cyflenwi teledu" bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fel manylion am ymgysylltiad comisiynwyr y BBC â'r farchnad (ee manylion sesiynau briffio a diweddariadau ar y wefan) yr oriau sydd wedi cael eu comisiynu gan wahanol fathau o gynhyrchwyr, metreg o ran amrywiaeth y cyflenwyr y mae wedi gweithio gyda nhw, a chanlyniadau tendrau;
- ii) Mewn perthynas â chomisiynu ar gyfer y teledu, mae Ofcom eisoes yn casglu amrywiaeth o wybodaeth ar sail fesul rhaglen, ond bydd y BBC yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys a gafodd rhaglen deledu ei gwneud yn dilyn cystadleuaeth.
- iii) Mewn perthynas â chomisiynu ar gyfer y radio, nad ydy Ofcom yn cael unrhyw wybodaeth amdano ar hyn o bryd, bydd y BBC yn cyflwyno gwybodaeth i Ofcom am raglenni comisiwn ar y radio ar sail fesul rhaglen; ac
- iv) Mewn perthynas â chomisiynu ar gyfer gwasanaethau ar-lein, bydd y BBC yn darparu gwybodaeth newydd i Ofcom am gynnwys ar-lein, gan gynnwys ar gyfer rhywfaint o gynnwys sydd ar hyn o bryd yn disgyn y tu allan i gwmpas gofynion cystadleuaeth Cytundeb y BBC.

1.3 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan randdeiliaid, yr ymrwymadau uchod gan y BBC, a'n gwaith dadansoddi pellach ni, rydyn ni wedi penderfynu peidio â gosod gofynion ychwanegol ar y BBC ar hyn o bryd, gan gynnwys mewn perthynas ag adrodd. Rydyn ni hefyd yn cadarnhau ein canllawiau am y ffactorau y byddem yn eu hystyried petai ymchwiliad. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y bydd y BBC yn ei chyhoeddi ac yn ei rhoi i ni er mwyn monitro ei weithgareddau. Pan fydd angen, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y BBC ar sail fesul achos, er enghraifft petaem yn agor ymchwiliad i weithgareddau comisiynu'r BBC. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd mae'r BBC yn gweithredu ei ofynion a'i ymrwymadau'n ymarferol ac am ddatblygiadau yn y sector.